Annwyl Rieni/Gwarchodwyr,

Mae'n rhoi pleser mawr i fi gyflwyno i chi, drwy gyfrwng y llawlyfr yma, peth gwybodaeth am ein hysgol. Bwriad y llawlyfr yma i'w i roi cymorth i chi adnabod a darganfod mwy am fywyd a gwaith yn Ysgol Gymraeg Rhys Prichard.

Y plant sydd wrth wraidd ac yn sail i bob penderfyniad rydym yn ei wneud yma yn yr ysgol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ein disgyblion yn hapus, hyderus ac yn unigolion llwyddiannus. Ein nod yw sicrhau cwricwlwm ysgogol fel bod ein disgyblion yn ennyn brwdfrydedd am ddysgu gan ddatblygu dyheadau uchel am lwyddiant eu dyfodol.

Rwy'n ystyried fy hun yn hynod o ffodus o gael arwain tîm ymroddgar o staff sy'n gweithio'n galed er mwyn codi a chynnal safonau uchel. Ein blaenoriaeth yw sicrhau llwyddiant eich plentyn drwy gyd-weithio yn agos gyda chi fel rhieni, y gymuned leol ac ysgolion eraill cyfagos. Rydym o'r farn bod addysg eich plentyn yn bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref, ac o ganlyniad yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth ar bob achlysur.

Does dim amheuaeth gennym, fel staff, y bydd eich plentyn yn ffynnu o dan ein gofal a gyda ein cefnogaeth yma yn Ysgol Gymraeg Rhys Prichard. Mae safon yr addysg a'r profiadau y mae eich plentyn yn eu derbyn ar hyd eu gyrfa ysgol, yn sylfaen ac yn eu paratoi at fyd tu hwnt i'w hamser yn yr ysgol.

Yn dilyn darllen y llawlyfr yma, mae'n bosib eich bod am wybodaeth bellach. Os hynny, yna mae croeso i chi gysylltu gyda fi yn yr ysgol.

Edward Davies

E T Davies

Pennaeth

Mawrth 2026

Ein hysgol

Saif Ysgol Gymraeg Rhys Prichard ar gyrion hen dref farchnad yng nghanol Dyffryn Tywi uchaf, yng ngogledd Sir Gaerfyrddin. Roedd yr ysgol yn cael ei hadnabod fel Ysgol Gynradd Sirol Llanymddyfri tan fis Rhagfyr 1994 pan cafodd ei hailenwi'n swyddogol yn Ysgol Rhys Prichard, Llanymddyfri i gofio 350 mlynedd ers marwolaeth yr enwog Ficer Prichard o Lanymddyfri. Yn mis Medi 2025 cafodd yr ysgol ei ail enwi yn Ysgol Gymraeg Rhys Prichard i ddathlu ein bod yn ysgol Gymraeg. Mae'r ysgol bellach wedi symud i safle newydd ers mis Chwefror 2021.

Dynodir yr ysgol yn ysgol Gymraeg yn unol â pholisi iaith yr Awdurdod Addysg. Mae hyn yn golygu mai Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol gan sicrhau bod disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd.

Gweledigaeth yr Ysgol

Datblygu disgyblion hapus, iach a dwyieithog sy'n cyflawni eu potensial mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol a chofiadwy.

Nod ac amcanion yr Ysgol

Cynhwysol

Bod yn ysgol gynhwysol drwy:

- gynnig cyfle cyfartal i bawb heb wahanu o ran crefydd, hil, gallu, diwylliant, rhyw ac oedran;
- sefydlu perthynas waith da gyda disgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned;
- barchu ac ennill parch
- ddathlu, cofleidio a gwerthfawrogi amrywiaeth;
- fabwysiadu polisi drws agored.
- werthfawrogi pob person fel unigolyn.

Herio i lwyddo

Byddwn yn herio i lwyddo drwy:

- greu amgylchedd dysgu ac addysgu sydd yn hyrwyddo ac ysgogi pawb;
- osod targedau uchelgeisiol;
- ymdrechu i gyrraedd llawn potensial;
- ffocysu ar ragoriaeth;
- fwynhau her, dathlu a rhannu llwyddiant.

Ysbridoli

Creu amgylchedd ysbrydoledig gyda'r plentyn yn y canol sydd yn annog plant i fod:

- yn hapus;
- yn hyderus ac annibynnol;
- yn barchus;
- wedi eu sbarduno;
- yn rhannu profiadau a barn;
- ag agwedd cadarnhaol;
- yn datblygu'n barhaus;
- yn ddiogel;
- yn gyfeillgar;
- i gwrdd ag anghenion unigol;
- yn gweithio i gyrraedd eu potensial;
- yn cydweithio;
- a ffydd mewn disgyblion a staff;
- yn gytbwys;
- yn gymdeithasol;
- yn chwilfrydig.

Ethos Gymreig

Dathlu a hyrwyddo ein hiaith a'n diwylliant drwy:

- **ennyn brwdfrydedd ac annog parch;**
- **greu ymwybyddiaeth o hanes y wlad, ei datblygiad, cartrefi, bwyd, dillad;**
- **ymweld â lleoliadau hanesyddol a diwylliannol;**
- **hybu adnabyddiaeth o gerddoriaeth ein gwlad- alawon traddodiadol, gwerin, emynau corawl a dawns;**
- **barchu a hyrwyddo ei thraddodiadau drwy eisteddfodau, cyngherddau a dathliadau.**

Strwythur Staffio – Rhagfyr 2025

Pennaeth	Mr Edward Davies
Pennaeth Cynorthwyol	Mrs Bethan Jones
CADY	Mrs Tracey Aston-Rees
Staff Dysgu	Mr Emyr Richards
	Mr Gareth Salt
	Miss Catherine Spencer
	Mrs Angharad Davies
	Ms Delyth Jones
	Mrs Margaret Williams
	Miss Jessicca Thomas
Swyddog Gweinyddol	Mrs Charlotte Evans
Cynorthwywragedd Llawn Amser	Mrs Wendy Sidaway
	Mrs Teleri Nicholas
	Mrs Heulwen Land
	Miss Sonia Marsland
	Mrs Kim Price
	Mrs Bettina Thomas
	Ms Susan Thomas
	Mrs Miriam Evans
Cynorthwywragedd Rhan Amser	Mrs Paula Hilliam
	Mrs Tammy Thompson-Waters
Glanhawr/Gofalwyr	Mr Tim Morgan
	Mrs Margaret Denyer
	Mrs Caroline Ward
Athrawon Cerddoriaeth	Ms Catrin Soons
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Mrs Rachael Davies

Goruchwylwyr cinio	Mrs Denise Weatherill
	Ms Louise Blofield
	Mrs Louise O'Connor
	Mrs Glenys Watts
	Mr Tim Morgan
	Ms Heather Jones
Cogyddes	Mrs Sandra Ardolino
Cynorthwyydd Arlwyo	Mrs Margaret Denyer
	Mrs Amanda Wilkinson
	Mrs Rachel Waters
	Mrs Jane Kelly

Corff Llywodraethol yr Ysgol

Enw	Statws
Mrs Caroline Pritchard	Cynrychiolydd yr AALl
Cllr H Davies	Cynrychiolydd yr AALl
Mrs Meryl Jones	Cynrychiolydd yr AALl
Mrs N Pease	Cynrychiolydd Cymunedol
Cllr Huw Thomas	Cynrychiolydd Cymunedol Ychwanegol
Ms W Thomas-Davies	Cynrychiolydd Cymunedol (Cadeirydd)
	Cynrychiolydd Cymunedol
Mr N Crocker	Cynrychiolydd Rhieni
Mrs Rh Joseph- Morgan	Cynrychiolydd Rhieni
Ms G Van Gompel	Cynrychiolydd Rhieni
Mrs L Jones	Cynrychiolydd Rhieni
Mrs Miriam Evans	Cynrychiolydd Staff
Mrs Bethan Jones	Cynrychiolydd Athrawon
Mr Edward Davies	Pennaeth

Amserlen Dyddiol Ysgol

Clwb Brecwast	8:00 – 8:45
Drysau yn agor	8:45
Ysgol yn dechrau	9.00
Cofrestru	9:00 – 9:05
Sesiwn 1	Dysgu Sylfaen- 9.05-10.25 CA2- 9:05 – 10:10
Amser Chwarae	10.30 – 10.45
Sesiwn 2	Dysgu Sylfaen 10:45 – 11:55 Bl 3 - 6 10:45 – 12.05
Cinio	Dysgu Sylfaen 12.00 – 1:05 Bl 3-6 12:05 – 1:05
Cofrestru	1:05 – 1:10
Sesiwn 3	Derbyn i Bl2 1:10 – 2:20 Bl 3 i 6 1.10 – 2.45
Amser Chwarae	Meithrin i Flwyddyn 2 2:20 – 2:35 Bl 3 i 6 2.45 -3.00
Sesiwn 4	Dysgu Sylfaen 2:35 – 3:20 CA 2 3.00 – 3:30
Diwedd y Dydd	Dysgu Sylfaen 3:20 CA 2 3:30

Bydd prif fynedfa'r ysgol yn agor am 8:45. Mae aelod o staff ar ddyletswydd bob bore i gwrdd â'r plant a'r rhieni wrth iddynt gyrraedd.

Er mwyn hwyluso'r trefniadau ar ddiwedd y diwrnod ysgol, rhowch wybod i'r athro dosbarth ar ddechrau'r dydd os bydd newid i drefniadau teithio diwedd dydd eich plentyn.

Gwisg Ysgol

Dyma'r wisg ysgol sydd yn cael ei wisgo gan bob plentyn. Gellir prynu gwisg ysgol drwy 'Parent Pay' ac yna ei casglu o Swyddfa'r Ysgol. Cofiwch ysgrifennu enw eich plentyn ar bob darn o ddillad.

Dillad Llythrennedd Corfforol

Gofynnwn i'r plant wisgo crys-t cwl (100% Polyester) porffor, siorts du ac esgidiau addas ar gyfer eu sesiynau llythrennedd corfforol. Os yw'r tywydd yn arw yna mae'n bosibl i blant wisgo trowsus tracwisg ar gyfer y sesiwn. Cofiwch ysgrifennu enw eich plentyn ar bob dilledyn. Gall disgyblion yn dosbarthiadau Barcud Coch (Dosbarth Derbyn) a Brianne (Dosbarth Blwyddyn 1) gwisgo eu dillad ymarfer corff i'r ysgol ar ddiwrnod y wers. Mae angen i ddisgyblion pob dosbarth arall i ddod â'u dillad ymarfer corff i'r ysgol ar ddiwrnod y wers a newid yn yr ysgol yn yr ystafelloedd newid.

Gwersi nofio - Mae angen het nofio ar bob plentyn.

Cwricwlwm i Gymru Ysgol Rhys Prichard

Mae ein cwricwlwm wedi'i gyd-adeiladu drwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a bydd yn bodloni'r gofynion canlynol:

Ein gweledigaeth

Datblygu disgyblion hapus, iach a dwyieithog sy'n cyflawni eu potensial mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol a chofiadwy.

Ein gwerthoedd

1. Parch
2. Iach
3. Hapus
4. Annibyniaeth
5. Cymreictod
6. Teulu

Ein cwricwlwm cynhwysol

Bydd ein cwricwlwm yn codi'r dyheadau ar gyfer pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael ei gefnogi i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen. Rydym wedi ystyried ein darpariaeth ADY a sut y byddwn yn diwallu anghenion gwahanol grwpiau o ddysgwyr.

Y pedwar diben

Y pedwar diben yw'r man cychwyn a'r dyhead ar gyfer dylunio cwricwlwm ysgolion. Nod ein hysgol yw cefnogi ein dysgwyr i ddod yn :

*ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau

*gyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith

*ddinasyddion egwyddorol, gwybodus Cymru a'r byd

*unigolion iach, hyderus, yn barod i fyw bywydau fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas

Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu'r cysyniadau, y wybodaeth a'r sgiliau allweddol fel y disgrifir yn natganiadau'r hyn sy'n bwysig ac yn unol â'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

Bydd ein cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu drwy'r 6 Maes Dysgu canlynol:

*Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

*Celfyddydau Mynegiannol

*Gwyddoniaeth a Thechnoleg

*Dyniaethau

*Mathemateg a Rhifedd

*Iechyd a Lles

Dysgu, Dilyniant ac Asesu

Bydd ein cwricwlwm yn cefnogi dysgu trwy ddylunio cyfleoedd dysgu sy'n tynnu ar yr egwyddorion addysgeg.
Mae ein cwricwlwm, a gefnogir gan addysgu a dysgu effeithiol, yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon. Dros amser, bydd ein dysgwyr yn datblygu ac yn gwella eu sgiliau a'u gwybodaeth. Mae ein cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddeall beth mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn maes neu ddisgyblaeth benodol a sut y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd, a'u priodoleddau a'u gwarediadau ac mae'n cael ei lywio gan y Cod Dilyniant. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi ein dull o asesu, a'i ddiben yw llywio cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Bydd asesu'n cael ei ymgorffori fel rhan gynhenid o ddysgu ac addysgu. Bydd pob dysgwr yn cael ei asesu wrth fynd i mewn i'r ysgol.

Cymraeg

Mae ysgolion sy'n darparu addysg Gymraeg yn defnyddio'r Gymraeg i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae gwersi Saesneg yn cael eu cyflwyno ym Mlwyddyn 3.

Sgiliau trawsgwricwlaidd

Bydd ein cwricwlwm yn datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau hyn ac i'w hymestyn a'u cymhwyso ar draws pob maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd ar draws y cwricwlwm i:

1. ddatblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
2. allu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn

3. fod yn ddefnyddwyr hyderus o ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Bydd ein hysgol yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'u hawliau.

CWRE : Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Gwaith

Er bod ein dysgwyr yn ifanc, bydd ein cwricwlwm yn ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith ar gyfer ein holl ddysgwyr.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae ein cwricwlwm ysgol yn cofleidio'r arweiniad yn y Cod APRh. Bydd gan ein darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r pedwar diben fel rhan o ymagwedd ysgol gyfan. Sylfaen ACRh yw helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gydymddiriedaeth a pharch. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

Gwerthoedd, Crefydd a Moeseg

Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg yn un o ofynion statudol y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

Nid oes hawl rhieni i ofyn i blentyn gael ei dynnu'n ôl o gwerthoedd, crefydd a moeseg yng nghwricwlwm Cymru. Gan fod gwerthoedd, crefydd a moeseg yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur y cytunwyd arno yn nodi'r hyn y dylid ei ddysgu mewn gwerthoedd, crefydd a moeseg o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

Adolygu a mireinio

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu er mwyn ymateb i allbynnau ymchwiliad proffesiynol, anghenion newidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.

Camau Cynnydd



Camau Cynnydd 1 a 2 (Derbyn i Flwyddyn 3)

Mae Camau Cynnydd 1 a 2 yn ymwneud â gwella'r profiadau dysgu sy'n galluogi plant i fod yn greadigol, yn ddychmygus ac i gael hwyl wrth ddysgu. Mae plant yn cael mwy o gyfleoedd i archwilio'r byd o'u cwmpas ac i ddeall sut mae pethau'n gweithio drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol perthnasol sy'n hwyl ac yn bleserus ac yn berthnasol i'w hoedran datblygiadol.

Mae ein hamgylchedd dan do ac awyr agored yn hwyl, yn gyffrous, yn ysgogol ac yn ddiogel. Maent yn hyrwyddo datblygiad plant a chwilfrydedd naturiol i archwilio a dysgu trwy brofiadau uniongyrchol a bywyd go iawn.

Cam Dilyniant 3 (9 i 11 oed - Blynyddoedd 4 i 6)

Yn Cam Cynnydd 3, caiff disgyblion gyfleoedd i adeiladu ar y profiadau a gafwyd yn ystod camau cynnydd 1 a 2, ac i hyrwyddo eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad a'u lles personol a chymdeithasol. Nod yr ysgol yw sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn gwella datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm yn amrywiol, yn eang ac yn gytbwys. Felly mae angen i'r sefydliad yn yr ystafell ddosbarth fod yn hyblyg. Mae'r plant yn dysgu gyda'i gilydd fel uned ddosbarth yng ngofal athro dynodedig.

Addysgu a Dysgu

Mae'r athrawon yn ystyried gallu pob plentyn yn unigol ac mae gwaith a baratowyd yn wahaniaethol gan sicrhau datblygiad unigol. Er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r gwaith, defnyddir amrywiaeth o ddulliau addysgu, megis addysgu unigol, gwaith pâr neu waith grŵp ac addysgu dosbarth.
Mae'r gwaith yn yr ystafell ddosbarth yn aml yn cael ei atgyfnerthu gyda phrofiadau uniongyrchol fel ymweliadau â safleoedd hanesyddol, ymweliadau theatr neu ymweliadau â'r ysgol gan gwmnïau 'theatr mewn addysg' a siaradwyr gwadd.

Asesu ar gyfer Dysgu:

Rydym yn canolbwyntio ar gyflawniad y disgybl ac ar ffyrdd y gallant symud ymlaen:

1. lle maen nhw yn y continiwm dysgu
2. lle mae angen iddynt fynd
3. sut orau i gyrraedd yno

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd asesu ar gyfer dysgu er mwyn cael gwybodaeth am gryfderau'r dysgwr ac am feysydd y mae angen eu datblygu ymhellach.

Polisi Iaith

Mae'r ysgol yn mynnu bod gwerth addysgol o feddu ar ddwy iaith.

Nod ein polisi ydy sicrhau fod y plant yn gwbl ddwyieithog wrth ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg erbyn gadael yr ysgol gynradd er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae'r ddarpariaeth a wneir yn yr ysgol yn sicrhau fod pob plentyn yn medru cyfathrebu yn hyderus yn y ddwy iaith a'u bod yn ymwybodol o'u hetifeddiaeth ddiwylliannol

Mae nifer o fanteision i fod yn ddwyieithog:

- yn gyntaf, lleolir yr ysgol mewn ardal lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei siarad a'i defnyddio'n eang. Mae'n bwysig felly i sicrhau bod disgyblion yr ysgol yn datblygu i allu defnyddio'r ddwy iaith yn hyderus a rhugl, fel eu bod yn gallu dewis cymryd rhan lawn ym mhob agwedd o fywyd yr ardal.

- bydd rhai o'n disgyblion yn symud ymlaen i ddysgu ieithoedd eraill yn y dyfodol, ac mae gwaith ymchwil yn dangos bod plant sy'n medru siarad dwy iaith eisoes yn dysgu ieithoedd eraill yn gyflymach na phlant sy'n siarad ond un iaith.
- hefyd, yn y tymor hir, mae'r gallu i ddefnyddio'r ddwy iaith yn fantais bwysig mewn byd gwaith yng Nghymru. Mae sicrhau bod plant yn datblygu i siarad y ddwy iaith felly yn sicrhau rhoi cyfleoedd ehangach iddynt sicrhau gwaith a chyfleoedd i ddatblygu yn lleol, o fewn Cymru ac yn rhyngwladol.

Daw'r plant i'r ysgol yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn pedair oed - rhai o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd, rhai lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg ac eraill o aelwydydd Saesneg eu hiaith. Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol.

Cydaddoli

Mae lle pwysig i'r Gwasanaeth Boreol o fewn yr ysgol. Yn ystod y cyfnodau hyn daw plant a staff yr ysgol ynghyd i gydaddoli a rhannu profiadau. Rhoddir cyfle i'r plant i gyfrannu yn y gwasanaeth yn unigolion, grŵp neu ddosbarth a cheir cyfnodau hefyd i longyfarch y plant am eu gweithrediadau da. Byddwn yn cydaddoli naill ai o fewn y dosbarth neu fel ysgol gyfan, a disgwylir i'r plant barchu a gwerthfawrogi'r cyfnodau yma. Mae hawl gan rieni i gadw eu plentyn allan o'r gwasanaeth boreol ac fe wneir trefniadau ar gyfer hynny os oes galw.

Clwb Brecwast

Mae Clwb brecwast yn rhedeg yn yr ysgol o 8yb hyd at 8.45 yb ond rhaid bod yn ysgol erbyn 8.30yb i gael brecwast. Ceir mynediad i'r clwb brecwast trwy mynedfa y neuadd a leolir yn y maes parcio wrth gefn yr ysgol. Rhaid arwyddo eich plentyn i fewn y bore. Cynigir dewis o rawnfwydydd, tost brown a sudd gwahanol sydd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau a'r Canllawiau Bwyta'n Iach diweddaraf ar gyfer Ysgolion Cymru.

Cinio Ysgol

Mae pob disgybl oedran cynradd yn derbyn cinio ysgol am ddim. Mae hyn o ganlyniad i'r pwysau cynyddol o ran costau bwyd ar deuluoedd ac uchelgais Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant, mae cynllun ar waith i sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn mynd heb fwyd yn yr ysgol. Erbyn hyn, mae pob plentyn Ysgol Gynradd yng Nghymru yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim. Cafodd y cynllun ei gyflwyno ym mis

Medi 2022. Gallwch gael mwy o wybodaeth am y ddolen yma:Prydau Ysgol am Ddim a Phrydau Ysgol Am Ddim i bob Plentyn Ysgol Gynradd - Cyngor Sir Caerfyrddin

Golygir hyn eu bod yn cael pryd dau gwrs i gynnwys opsiwn llysieuol a phwdin. Mae ffrwythau ffres a dŵr i yfed hefyd ar gael yn yr ysgol. Mae bwydlen Cyngor Sir Gaerfyrddin yn rhedeg ar sail cylchdro 3 wythnos sy'n cael ei newid ddwywaith y flwyddyn ym mis Mai a mis Hydref i ganiatáu ar gyfer amrywiannau tymhorol.

Mae'r prydau ysgol a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) (2014) gyda'r bwydlenni a ddarperir gan Wasanaeth Prydau Ysgol yr Awdurdod Lleol. Mae'r Gwasanaeth Prydau Ysgol wedi derbyn Tystysgrif Cydymffurfiaeth, sy'n cadarnhau ei fod yn cadw at y Rheoliadau Bwyta'n Iach ac yn rhoi deiet cytbwys iach i ddisgyblion. Gwelir y ddolen isod ar gyfer mwy o wybodaeth am hyn -

healthy-eating-in-maintained-schools-statutory-guidance-for-local-authorities-and-governing-bodies.pdf

Rhaid bwcio y prydau ysgol ymlaen llaw, gan ddefnyddio ParentPay. Mi fyddwch yn derbyn côd i greu cyfrif ar system Parent Pay pan fydd eich plentyn yn dechrau ysgol.

Bocsys Bwyd/ Pecyn Cinio

Mae croeso i ddysgwyr sy'n dymuno dod â phecyn bwyd i'r ysgol wneud hynny. Fel ysgol sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, rydym yn annog rhieni / gofalwyr i baratoi Bocs Bwyd Iach ar gyfer eu plant fel bod negeseuon cyson yn cael eu hailadrodd mewn perthynas â bwyta'n Iach ac yfed. Fel ysgol nid ydym yn caniatáu diodydd swigod na diodydd egni o fewn bocsys bwyd ac yn darbwyllo rhieni rhag cynnwys danteithion afiach fel creision, bisgedi, melysion a siocled. Gellir dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am baratoi Cinio Pecyn Iach yma: Pecynnau cinio iach

Byrbrydau a diodydd

Yn unol â Rheoliadau a Chanllawiau Cenedlaethol Bwyta'n Iach (2013), a'n Polisi Bwyd a Ffitrwydd, fel ysgol rydym ond yn caniatáu byrbrydau iach a dŵr ar safle'r ysgol. Gellir dod o hyd i wybodaeth am fyrbrydau iach yma: **Healthier snacks - Food facts - Healthier Families - NHS**

Caniateir i ddysgwyr ddod â ffrwythau a llysiau fel byrbryd i'w fwyta yn ystod amseroedd egwyl

Llaeth am ddim

Mae'r ysgol yn ymgysylltu â'r Cynllun Llaeth Am Ddim ac mae pob dysgwr yn y Cyfnod Dysgu Sylfaen yn gymwys i laeth am ddim.

Asesu ac Adrodd

Gwahoddir y rhieni i nosweithiau rhieni yn flynyddol lle rhoddir cyfle i'r rhieni edrych o amgylch yr ysgol i weld gwaith y plant ac i siarad yn unigol ag athro'r plentyn. Dosberthir adroddiad ysgrifenedig ar gynnydd y disgyblion ar ddiwedd tymor yr Haf.

Mae croeso hefyd i rieni ymweld â'r ysgol ar unrhyw amser cyfleus i ymdrin â gwaith eu plentyn neu broblemau a allai godi. Gwahoddir rhieni sydd yn pryderu ynglŷn â phroblemau addysgiadol, ymddygiadol neu ddatblygiadau corfforol i gwrdd â'r Pennaeth ar unrhyw amser. Gellir trin problemau fel yr uchod yn llwyddiannus yn yr ysgol.

Llais y Disgybl

Mae llais y dysgwr yn bwysig i ni yn yr ysgol. Rydym yn gwrando ar lais y disgybl ac yn gweithredu ar lais y disgybl trwy ein cynghorau- Cyngor Ysgol, Cyngor Eco, Llysgenhadon Efydd , Dewiniaid Digidol a Chriw Cymraeg. Maent yn gweithio'n galed i gasglu barn disgyblion ac yna yn creu cynlluniau gweithredu unigol ar feysydd sydd yn effeithio arnynt hwy gan gynnwys lles.

Cyngor Ysgol

Mae gan yr ysgol gyngor sydd yn cynnwys cynrychiolaeth o bob blwyddyn. Rhydd y Cyngor, gyfle i'r plant i ddweud eu barn am yr ysgol a gwneud argymhellion i'r Prifathro.

Disgyblaeth

Y mae cyfrifoldeb disgyblaeth ysgol yn nwylo'r Pennaeth, ond y mae'n fater i bawb sydd â chysylltiad â'r ysgol gan gynnwys rhieni. Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn dderbyniol ac fel aelod o gymdeithas o fewn yr ysgol. Anogir pob disgybl i ddilyn 'Rheolau Euraidd' yr ysgol a restrir isod

Rheolau Euraidd

Gwneud eich gorau glas

Parchu, rhannu a bod yn ffrindiau â phawb

Bod yn brydlon

Byddwch yn gwrtais

Mae pawb yn gyfartal

Cerddwch i mewn ac o gwmpas yr ysgol

Edrychwch ar ôl eich eiddo ac eiddo pobl eraill

Yr ydym hefyd yn cynnal gwasanaeth wythnosol 'Seren yr Wythnos' lle rydym yn clodfori llwyddiant disgyblion sydd wedi cyflawni'n arbennig mewn amrywiol agweddau ym mywyd yr ysgol.



Anghenion Dysgu Ychwanegol
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET 2018)

Mae'r system ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac anabledd yng Nghymru yn newid. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno system newydd fwy hyblyg ac ymatebol ar gyfer diwallu anghenion plant ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau ac mae'n ymdrechu i gyflwyno system addysg gwbl gynhwysol ar gyfer dysgwyr Cymru.

Bydd y system newydd yn sicrhau bod anghenion yn cael:

- eu nodi'n gynnar, eu diwallu'n gyflym a bod pob dysgwr yn cael ei gefnogi i gyrraedd ei botensial.
- bod ein gweithwyr proffesiynol yn fedrus ac yn hyderus o ran nodi anghenion a datblygu strategaethau i helpu dysgwyr i oresgyn eu rhwystrau i ddysgu.
- bod y dysgwr yn ganolog i bopeth a wnawn a'i fod, ynghŷd â'i rieni/gofalwyr, yn bartneriaid cyfartal yn ei dysgu. (Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn)

O fis Medi 2021, bydd y system newydd yn cael ei chyflwyno'n raddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf (2021 - 2024).

Negeseuon allwewddol

Dyma rai o'r negeseuon allweddol am y newidiadau hyn a'r hyn y gallant ei olygu i chi a'ch plentyn.

- Bydd y term Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn disodli'r termau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) ac Anawsterau ac Anableddau Dysgu (AAD).
- Bydd Cydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig (Cydlynwyr AAA) mewn ysgolion bellach yn cael eu galw'n Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cydlynwyr ADY).
- Bydd y Côd ADY gorfodol ar gyfer y system newydd yn cynnwys plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed. Mae hyn yn golygu y bydd gan golegau blynyddoedd cynnar ac addysg bellach ddyletswyddau o dan y Ddeddf, ond nid yw hyn yn cynnwys addysg uwch na phrentisiaethau
- Mae'r system raddedig bresennol o Weithredu yn y Blynyddoedd Cynnar/Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy a Datganiadau yn cael ei disodli yn ystod y 3 blynedd nesaf.

- Bydd pob plentyn a pherson ifanc sydd ag Angen Dysgu Ychwanegol (ADY) a nodwyd sy'n gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn cael Cynllun Datblygu Unigol (CDU).
- Bydd y Cynllun Datblygu Unigol yn disodli'r holl gynlluniau unigol eraill. Bydd Cynlluniau Datblygu Unigol, y mae eu hangen ar blant o dan oed ysgol gorfodol h.y. yn y blynyddoedd cynnar, yn cael eu cynnal gan Awdurdodau Lleol.
- Bydd y rhan fwyaf o Gynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu cynnal gan yr ysgol ond gallant hefyd gael eu cynnal gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer y dysgwyr hynny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.
- Mae'r Ddeddf yn disgwyl y bydd pob partner megis Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydweithio i gefnogi plant a phobl ifanc ag ADY.
- Bydd mwy o gyfleoedd i blant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr gyfrannu at greu a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol trwy gyfrwng Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.
- Disgwylir y dylai cydweithio'n agosach helpu i osgoi anghytundebau.
- Bydd pob cam rhesymol yn cael ei gymryd i sicrhau y darperir Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yn Gymraeg, os bydd angen.

Diogelwch

Yn ein hysgol ni, diogelwch y plant sy'n dod gyntaf. Rydym wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch pob dysgwyr, ac mae'n rhaid i bob ymwelydd ddod i'r swyddfa ac arwyddo i fewn.

Mae gennym hefyd bolisi cynhwysfawr ysgol gyfan o ran hyrwyddo Iechyd a Diogelwch i bawb.

Mae'r ysgol yn gwneud asesiad Iechyd a Diogewlch ar gyfer agweddau gwahanol o fywyd yr ysgol e.e. teithiau. Gellir cael copiau yn swyddfa'r ysgol. Mae polisiau diogelu allweddol ar wefan yr ysgol.

Tywydd Gwael

Penderfyniad y Pennaeth ynghŷd â Chadeirydd y Llywodraethwyr ydy cau ysgol. Os penderfynir cau yn y bore cyn ysgol yna rhoddir gwybod i rieni yn uniongyrchol drwy ebost ac fe fyddwn yn diweddaru ein gwefan, facebook yr ysgol a gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin.
Os bydd y tywydd yn gwaethygu yn ystod y dydd, fe wneir pob ymdrech i gysylltu â rieni pob plentyn. Os na fydd hyn yn bosib, byddwn yn sicrhau fod yna le diogel gan y plant i fynd iddo tan fod eu rhieni yn cyrraedd adre e.e. mamgu neu gymydog.

Presenoldeb

Mae presenoldeb eich plentyn yn ysgol yn allweddol i ddatblygiad eich plentyn ymhob agwedd. Mae gennych fel rieni gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd a dylech hysbysu'r ysgol cyn 9.00 y.b. ar y diwrnod cyntaf o absenoldeb os nad yw eich plentyn yn gallu mynychu'r ysgol.
Mae'n ofynnol i bob ysgol gofnodi absenoldeb disgybl naill ai'n awdurdodedig neu heb awdurdod. Os bydd rhieni'n methu â hysbysu'r ysgol am absenoldeb, caiff ei gofnodi'n awtomatig fel absenoldeb

heb awdurdod yn erbyn y plentyn. Dylai rhieni roi gwybod i'r ysgol yn ysgrifenedig os yw absenoldeb yn hysbys ymlaen llaw. Mae'r ysgol yn cadw'r hawl ym mhob achos o absenoldeb i bennu'r categori absenoldeb.
Pan fydd plentyn yn cael apwyntiad meddygol yn ystod y diwrnod ysgol dylai rhieni roi gwybod i'r ysgol pa amser y bwriedir casglu y plentyn. Ni chaniateir i unrhyw blentyn adael yr ysgol oni bai ei fod yn cael ei gasglu gan oedolyn cyfrifol.

Derbyn Plant

Cyngor Sir Gâr sy'n rheoli derbyn disgyblion i'r ysgol. Penderfynir uchafswm y disgyblion sydd i'w derbyn, gan y rhif mynediad a bennir yn flynyddol mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Llywodraethol.

Y meini prawf ar gyfer derbyn disgyblion i'r ysgol:

- y cais ysgrifenedig a fynegwyd gan y rhieni;
- nifer y disgyblion a all eu derbyn i'r ysgol;
- yr ardal ddaearyddol;
- cysylltiadau brodyr a chwiorydd;
- rhesymau meddygol a chymdeithasol penodol sy'n berthnasol i'r darpar ddisgybl.

Cwblheir y cytundeb cartref / ysgol ar fynediad.

School Admissions and Changing Schools - Carmarthenshire County Council

Iechyd a Lles

Mae lles yn cyfeirio at y cyflwr o fod yn gyffyrddus, yn iach ac yn hapus. Er bod hapusrwydd yn rhan annatod o'n lles personol, mae lles yn cynnwys pethau eraill fel cyflawni nodau tymor hir, ein hymdeimlad o bwrpas, a sut rydyn ni'n teimlo mewn bywyd. Mae'n broses weithredol o ddod yn ymwybodol o fywyd iach a chyflawn a gwneud dewisiadau gwybodus.

Mae Iechyd a Lles yn allwedol i ddatblygiad plentyn ac mae yn un o feysydd dysgu y Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn addysgu y maes drwy ddilyn cynllun 'Jigsaw' sydd yn sicrhau ein bod yn ymdrin a phob agwedd o'r maes yma. Mae Iechyd a Lles ein disgyblion yn cael ei adlewyrchu yn ein gweledigaeth a'n gwerthoedd. Mae pob dysgwr yn cael eu haddysgu ar sut i wneud dewisiadau gwybodus mewn perthynas â ffyrdd iach o fyw. Mae ein system gwobrwyo yn caniatáu i bob dysgwr deimlo llwyddiant a boddhad.

Mae dysgwyr, drwy'r Rhaglen Ysgolion sy'n Hybu Iechyd a Llesiant yn cael eu haddysgu am 7 pwnc Iechyd: Bwyd a Ffitrwydd, Hylendid, Diogelwch, Amgylchedd, Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau, Datblygiad Personol a Pherthnasoedd ac Iechyd Meddwl ac Emosiynol.

Mae gan ein hysgol dîm llesiant sydd yn cynnwys CADY, ELSA sydd yn cefnogi dysgwyr sydd ag anghenion emosiynol ychwanegol yn ogystal a arweinwyr rhaglenni ymyrraeth profiadol.

Mae nyrs ysgol a therapydd lleferydd yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Fe'ch hysbysir ymlaen llaw o'r dyddiad a'r amser. Rydym yn croesawu Heddlu Dyfed Powys i'r ysgol i redeg ei cynllun hwy gyda ein disgyblion. Rydym yn cyd weithio gyda Sbectrwm Cymru i godi ymwybyddiaeth yn ein disgyblion am berthnasoedd iach ar lefel addas i oedran a gallu y disgyblion.

Meddyginiaeth

Fe wneir trefniadau yn yr ysgol i gynorthwyo plant sy'n sâl ac sy'n gorfod cymryd meddyginiaeth ar gyngor eu meddyg. Fe wneir y trefniadau naill a'i oherwydd eu bod yn dioddef o ryw ffurf neu'i gilydd o afiechyd cronig neu alergedd (e.e. asthma neu ddiabetes) neu oherwydd eu bod yn cwblhau cwrs o driniaeth tra'n gwella o afiechyd tymor hir.

Os ydych am i'r ysgol rhoi meddyginiaeth i'ch plentyn yna mae rhaid i chi lenwi y ffurflen meddyginiaeth sydd i gael ar ein gwefan.

YSGOL RHYS PRICHARD, LLANYMDDYFRI

Salwch neu Niwed

Dyletswydd y rhieni yw gwneud trefniadau ar gyfer plant sy'n mynd yn sâl yn yr ysgol, drwy eu casglu i fynd â hwy adre, neu at y meddyg neu i'r ysbyty. Os na ellir cysylltu â rhieni neu berthnasau pan fydd plentyn yn ddifrifol sâl, gofynnir am gyngor y meddyg, neu os bydd angen, am gymorth y gwasanaeth ambiwlans. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd angen o bosibl i'r Pennaeth drefnu bod y plentyn yn cael ei gludo i'w gartref neu i'r ysbyty.

Gofynnwn i rieni / gofalwyr gadw eu plant adref am o leiaf 48 awr wedi salwch. Gwelir gwybodaeth ar y ddolen isod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru am wybodaeth am bryd mae'n ddiogel i blentyn ddychwelyd ar ôl salwch.

Cymraeg Cyfnod Gwahardd ar gyfer Heintiau Cyffredin(Gorffennaf v7).docx

Rydym fel ysgol yn cydymffurfio â'r Canllawiau Atal a Rheoli Heintiau diweddaraf Cymru Gyfan, a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gorffennaf 2024, mewn perthynas ag unrhyw achosion sy'n gysylltiedig â Dysgwr Heintus, Achosion a Hylendid cysylltiedig**:** Welsh Health protection in children and young people settings including education. docx - terfynol.docx

Cymorth ariannol

Gallech fod yn gymwys i gael cymorth ariannol i brynu gwisg ysgol, gostyngiad mewn costau trip ysgol, gwersi cerddoriaeth am ddim a chymorth wrth dalu biliau dŵr. Am fwy o wybodaeth ewch i https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-services/education-schools/school-meals/free-school-meals/

Mynediad i Ddisgyblion

Ein nod fel ysgol yw gwneud yr hyn a allwn i sicrhau fod gan unrhyw blentyn sy'n dioddef o anabledd, boed yn anabledd corfforol, meddyliol neu anhawster dysgu, fynediad i Ysgol Rhys Prichard. Rydym yn Ysgol gynhwysol ac rydym yn sicrhau mynediad llawn i bob disgybl i bob agwedd o fywyd yr ysgol.

Cytundeb Cartref - Ysgol

Nod y Cytundeb Cartref - ysgol yw sicrhau partneriaeth rhwng y plentyn, y rhieni a'r ysgol. Wrth arwyddo'r cytundeb rydym yn cydsynio i gydweithio yn llwyddiannus er lles ac addysg y plentyn. Cyflwynir cytundeb cartref ysgol i bob disgybl wrth iddynt gychwyn ar eu cyfnod yn yr ysgol. Yr egwyddorion a hybir drwy'r cytundeb yw lles, hapusrwydd, addysg, disgyblaeth ac iechyd y disgyblion fel yr amlinellir yn nodau ac amcanion yr ysgol.

Trefniadaeth Fugeiliol

Y Pennaeth sy'n gyfrifol am redeg yr ysgol ac mae'n ddibynnol ar gydweithrediad y staff i ofalu am y plant. Y mae athrawon dosbarth yn gyfrifol am y plant yn eu dosbarthiadau ac y mae hyn yn eu galluogi i drefnu gwasanaeth fugeiliol i'r plant sydd dan eu gofal. Gwneir pob ymdrech i gysylltu â rhieni petai damwain ddifrifol yn digwydd. Delir â damweiniau bach yn yr ysgol, ond petai damwain ddifrifol yn digwydd, fe eir â'r plentyn at feddyg. Mae'n angenrheidiol felly bod rhieni yn hysbysu'r ysgol am unrhyw newid mewn cyfeiriad neu rif ffôn. Mewn pob achos o ddamwain difrifol bydd yr ysgol yn anfon y manylion ymlaen at adran Asesu Risg yr Awdurdod Addysg.

Mae athro ac aelodau o'r staff cynorthwyol ar ddyletswydd ar yr iard bob amser chwarae, neu petai yn wlyb, yn yr ysgol. Amser cinio edrychir ar ôl y plant gan y staff cinio cynorthwyol.

Y Pennaeth sydd â chyfrifoldeb penodol dros ddisgyblion sydd mewn gofal.

Polisi Gwrth-fwlio

Mae gan yr ysgol bolisi arbennig ar fwlian sy'n datgan bod gan bob plentyn yr hawl i dderbyn ei addysg mewn awyrgylch ddiogel a hynaws. Ein bwriad yn yr ysgol yw sicrhau na fydd bwlio'n cael ei ddioddef o gwbl. Byddwn yn gweithio tuag at ddileu pob ffurf ohono drwy ennyn cydweithrediad llwyr y disgyblion, y staff, y rhieni a'r llywodraethwyr. Os ydych yn amau fod eich plentyn yn cael ei fwlian dylech gysylltu â'r ysgol yn syth – ni ddylech godi'r mater gyda disgyblion neu rieni unigol. Anti-Bullying-Policy-2024-.pdf

Plant mewn gofal

Y pennaeth sydd yn gyfrifol am hybu datblygiad addysgiadol plant mewn gofal. Mae'n gwneud hyn mewn cydweithrediad ag athrawon dosbarth, y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, yr adran addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol priodol.

Diogelu ac Amddiffyn Plant

Dylai rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol bod gan ysgolion gyfrifoldeb i sicrhau lles yr holl ddisgyblion. Mr E Davies yw swyddog dynodedig diogelu plant. Mrs B Jones a Mrs T Aston-Rees yw'r athrawon dynodedig diogelu plant.
Er mwyn sicrhau lles yr holl ddisgyblion rydym yn
• sicrhau bod gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant. Rydym yn defnyddio system 'My Concern' i nodi unrhyw bryderon llesiant/ diogelu.
• sicrhau bod bob aelod o staff yn cael ei gwirio gan DBS a bod ymwelwyr wedi cael yr holl wiriadau priodol a bod pob ymweliad wedi ei gynllunio ymlaen llaw.
• rhoi gwybod i rieni neu ofalwyr bod gennym bolisi amddiffyn plant, ac rydym yn ei gynnwys ym mhrosbectws yr ysgol, a bod hyn yn golygu y bydd efallai angen cyfeirio eu plentyn at yr asiantaethau lles plant statudol os ydym yn credu bod y plentyn neu blant eraill mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol
• Gweithio gyda rhieni/gofalwyr ynghylch lles eu plentyn ac aros yn ddiduedd os yw eu plentyn yn cael ei atgyfeirio neu wedi cael ei atgyfeirio
• Helpu rhieni neu ofalwyr i ddeall os atgyfeirir y plentyn i'r gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu, yna gwneir hynny er lles gorau'r plentyn ac y bydd yr ysgol yn cyfrannu at unrhyw ymchwiliad amddiffyn plant neu ymchwiliad yr heddlu o ran lles a chynnydd addysgol eu plentyn
• Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni/gofalwyr yn gyson ynghylch lles a chynnydd addysgol y plentyn.
Y pennaeth yw cydlynydd amddiffyn plant yr ysgol a Mrs Bethan Jones sydd yn ymgymryd a'r cyfrifoldeb yma yn ei absenoldeb.

Child-Protection-Policy-2024.pdf

Safeguarding-Statement-24.pdf

Diogelwch ar lein

Gall y mynediad i'r rhyngrwyd i ddysgwyr cynyddu risg o seiberfwlio, gweld cynnwys amhriodol, toriadau data, ac ysglyfaethwyr ar-lein. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol weithredu safonau hidlo gwe i gadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein: Mae ein AALl yn darparu Mesurau Diogelwch Rhwydwaith i'r ysgol, fel muriau tân i amddiffyn rhag digwyddiadau diogelwch. Mae hyn yn sicrhau nad yw dysgwyr yn gallu cyrchu gwefannau amhriodol tra yn yr ysgol. Gwleir ein polisi e-diogelwch-
E-Safety-Policy-2025.pdf

Rydym yn addysgu ein dysgwyr o sut i gadw'n ddiogel ar lein ar lefel sydd yn briodol i oedran ein disgyblion.Dilynwn rheolau SMART-

Cwynion

Dylid cyfeirio cwynion i'r Pennaeth. Os nad yw'n bosibl datrys y broblem o fewn yr ysgol yna bydd y Pennaeth yn dilyn y drefn sydd wedi ei gosod gan Awdurdod Addysg Sir Gaerfyrddin ar gyfer sefyllfaoedd tebyg.
Complaints-Policy-2023.pdf

Gwyliau Ysgol

Ceir dyddiadau gwyliau ysgol drwy ddilyn y ddolen isod.

Dyddiadau'r tymhorau a gwyliau ysgolion - Cyngor Sir Caerfyrddin

Codi tâl am weithgareddau

Mae Corff Llywodraethol yr Ysgol yn ymwybodol iawn o werth gweithgareddau allgyrsiol megis gwibdeithiau, chwaraeon a phrofiadau cyrsiau allgyrsiol tuag at addysg y plant.
Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg yn rhad ac am ddim ac felly y mae hi yn Ysgol Rhys Prichard. Serch hynny, gofynnir yn garedig am gyfraniad at gostau rhai gweithgareddau. Ceisir lleihau costau bob tro pan fo hynny'n bosibl.



Cyfleoedd Cyfartal

Rydym yn ymrwymo i ddarparu addysg o'r safon uchaf bosibl i bob disgybl a byddwn yn ceisio diwallu anghenion pawb heb unrhyw fath o wahaniaethu annheg. Byddwn yn-

- herio rhagfarn neu syniadau afresymol ynghylch grwpiau mewn cymdeithas ac yn ceisio meithrin goddefgarwch a pharodrwydd i dderbyn gwahaniaethau;
- hyrwyddo ac yn dathlu amrywiaeth mewn Cymuned a thu hwnt;
- ceisio bod yn gymuned gynhwysol, yn ystyr ehangaf y gair;
- yn paratoi'r disgyblion ar gyfer bywyd fel oedolion mewn cymdeithas amlddiwylliannol;

Rhieni

Y mae ysgol lwyddiannus yn dibynnu ar ewyllys da a chyfranogiad rhieni. Rydym yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r amser sydd gennych i'w roi. Y mae yna nifer helaeth o ffyrdd i helpu eich plentyn/plant ynghŷd â chyfrannu at fywyd yr ysgol.